OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 2705

## Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012

## RHAN 7 E+W

Y gofynion ar gyfer deilliadau epocsi penodol

### Cyfyngiadau ar ddefnyddio deilliadau epocsi penodol (BADGE, BFDGE a NOGE) E+W

**16.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl honno neu'r Atodiad hwnnw yn Rheoliad 1895/2005; a

(b) mae **[**F1paragraff (2)**]** yn ddarostyngedig i Erthygl 1(3) (cwmpas)(**1**).

(2) Yn ddarostyngedig i Erthygl 6(1), (2) a (4) (darpariaethau trosiannol)(**2**), ni chaiff unrhyw berson roi ar y farchnad na defnyddio, wrth gynnal busnes mewn cysylltiad â storio, paratoi, pecynnu, gwerthu neu weini bwyd—

(a) unrhyw ddeunydd neu eitem yn groes i Erthygl 3 (gwahardd defnyddio BFDGE neu ei bresenoldeb) neu Erthygl 4 (gwahardd defnyddio NOGE neu ei bresenoldeb); neu

(b) unrhyw ddeunydd neu eitem nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd yn Erthygl 2 (BADGE) fel y'i darllenir gydag Atodiad I (y terfyn ymfudo penodol ar gyfer BADGE a rhai o'i ddeilliadau).

F2(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i baragraff (2) F3...yn euog o drosedd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 16(1)(b) wedi eu hamnewid (14.9.2017) gan Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **9(a)**

**F2** Rhl. 16(3) wedi ei hepgor (14.9.2017) yn rhinwedd Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **9(b)**

**F3** Geiriau yn rhl. 16(4) wedi eu hepgor (14.9.2017) yn rhinwedd Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2017 (O.S. 2017/832), rhlau. 1(3), **9(c)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 16 mewn grym ar 20.11.2012, gweler **rhl. 1**

(**1**) Mae Erthygl 3 yn cynnwys eithriad sy'n ymwneud â rhai cynwysyddion a thanciau storio a phiblinellau sy'n perthyn iddynt.
(**2**) Mae Erthygl 6(1) a (2) yn darparu ar gyfer y trefniadau trosiannol ar gyfer cymhwyso Erthyglau 2, 3 a 4 i ddeunyddiau ac eitemau penodedig; mae Erthygl 6(4) yn caniatáu marchnata deunyddiau ac erthyglau penodedig os caiff gofynion penodol o ran labelu eu bodloni.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 14/09/2017. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, Adran 16.